
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru Adolygiad o gynnydd yn dilyn adolygiadau AGIC

Adolygiad AGIC o effeithiolrwydd a chynaliadwyedd y gwelliannau sy'n codi o'r adolygiadau a gyhoeddwyd yn 2020 a 2021.

Dyddiad cyhoeddi: 7 Hydref 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein **gwefan** neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-417-1

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom 5

2. Crynodeb o'r asesiad 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym 8

Thema 1: Llif cleifion, trosglwyddo, rhyddhau criw a llwybrau 9

Thema 2: Prosesau uwchgyfeirio 12

Thema 3: Cyfathrebu â chleifion a chanslo NEPTS 15

Thema 4: Arweinyddiaeth, llywodraethu, gweithlu a hyfforddiant 17

Thema 5: Ansawdd data a chofnodi cywir 21

4. Casgliad a'r camau nesaf 23

Meysydd ymarfer nodedig 23

Y camau nesaf 24

Atodiad A – Argymhellion 26

1. Yr hyn a wnaethom

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) asesiad i ystyried i ba raddau y mae Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi mynd i'r afael â'r pryderon a'r argymhellion sy'n codi o ddau adolygiad blaenorol AGIC.

Roedd yr adolygiad cyntaf a gyhoeddwyd yn 2020 yn ystyried trefniadau rheoli cleifion mewn Canolfannau Cyswllt Clinigol Gwasanaethau Meddygol Brys (EMSCCCs). Roedd hefyd yn cynnwys trefniadau ar gyfer cleifion sy'n aros yn y gymuned, capasiti'r gweithlu, uwchgyfeirio, hyfforddiant, llesiant, arweinyddiaeth a rhoi gwybod am ddigwyddiadau.

Roedd yr ail adolygiad a gyhoeddwyd yn 2021 yn ystyried diogelwch, preifatrwydd, urddas a phrofiad y cleifion wrth iddynt aros mewn ambiwlansys y tu allan i Adrannau Achosion Brys pan oedd cyfnod o oedi wrth drosglwyddo cleifion.

Gyda'i gilydd, roedd yr adolygiadau hynny'n disgrifio'r risgiau cysylltiedig ar draws y llwybr gofal brys ac argyfwng. Mae achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion i'r ysbyty yn lleihau nifer yr ambiwlansys sydd ar gael, sydd yna'n effeithio ar gleifion sy'n aros yn y gymuned, gweithrediad EMSCCCs, pwysau ar y gweithlu, uwchgyfeirio, goruchwyliaeth glinigol a phrofiad y claf. Rydym yn cydnabod na all yr Ymddiriedolaeth ddatrys y mater ar ei ben ei hun, a bod angen gweithredu parhaus gan fyrddau iechyd, comisiynwyr a phartneriaid system ehangach er mwyn gwneud gwelliannau parhaus.

Roedd yr asesiad hwn yn canolbwyntio ar ymateb yr Ymddiriedolaeth yn 2026 i'n pum diweddariad thema y gofynnwyd amdanynt, sy'n cynnwys:

- Llif cleifion a phrosesau trosglwyddo
- Prosesau uwchgyfeirio
- Cyfathrebu â'r cleifion a chanslo Gwasanaeth Cludo Cleifion Di-frys (NEPTS)
- Arweinyddiaeth, llywodraethu, gweithlu a diwylliant dysgu
- Ansawdd data a chofnodi cywir.

Er mwyn cefnogi ein dealltwriaeth o'r cynnydd a wnaed o dan y themâu uchod, gwnaethom ofyn i'r Ymddiriedolaeth gwblhau hunanasesiad a chyflwyno hwn i ni ynghyd â thystiolaeth gefnogol erbyn diwedd mis Ionawr 2026. Darparwyd y wybodaeth i ni a chafodd ei hystyried ochr yn ochr â deallusrwydd arall a ddelir gan AGIC.

Gwnaethom asesu'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr hunanasesiad a'r dystiolaeth ategol yn erbyn y themâu uchod, ac ystyriwyd a oedd yn dangos prosesau gweithredu, ymgorffori, effeithiolrwydd a chynaliadwyedd.

2. Crynodeb o'r asesiad

Crynodeb Gweithredol

Ar ddechrau 2026, asesodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) i ba raddau y mae Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi mynd i'r afael â'r canfyddiadau a'r argymhellion sy'n codi o adolygiadau AGIC a gyhoeddwyd yn 2020 a 2021.

Ar y cyfan, gwelsom fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd cryf ers ein hadolygiadau blaenorol a'i bod mewn sefyllfa sylweddol gryfach na'r un a ddisgrifiwyd yn 2020 a 2021. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno ystod eang o welliannau llywodraethu, gweithredol, gweithlu, clinigol a digidol, y mae llawer ohonynt bellach yn ymddangos wedi'u hymgorffori mewn trefniadau gweithredol a llywodraethu arferol. Gwelsom dystiolaeth o oruchwyliaeth gryfach pan oedd oedi wrth drosglwyddo cleifion, gwell trefniadau gwneud penderfyniadau clinigol, prosesau uwchgyfeirio mwy datblygedig, cynnydd o ran capasiti arwain, gwell trefniadau i gefnogi'r gweithlu a llywodraethu digidol a llywodraethu data cryfach.

Gwnaethom hefyd nodi sawl maes o arfer canmoladwy. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu modelau gwneud penderfyniadau clinigol uwch a llwybrau gofal amgen, trefniadau cymorth clinigol cryfach mewn EMSCCCs, goruchwyliaeth weithredol well o bwysau ar systemau, trefniadau gwell i gefnogi'r gweithlu a lleisio barn, a buddsoddi mewn hyfforddiant, datblygiad a llywodraethu digidol. Mae'r datblygiadau hyn yn awgrymu bod yr Ymddiriedolaeth wedi ymateb yn gadarnhaol ac yn adeiladol i lawer o'r pryderon a nodwyd drwy ein hadolygiadau blaenorol.

Fodd bynnag, er bod tystiolaeth gyffredinol dda o weithredu ac ymgorffori, roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn llai datblygedig o ran dangos effaith. Disgrifiodd yr Ymddiriedolaeth drefniadau llywodraethu, prosesau monitro a rhaglenni gwella cryfach ar draws sawl thema, ond tystiolaeth fwy cyfyngedig oedd i ddangos gwelliannau parhaus mewn canlyniadau cleifion, profiad y staff, perfformiad gweithredol neu effeithiolrwydd system ehangach. Roedd angen sicrwydd pellach mewn perthynas â gwerthuso rhaglenni, lleihau niwed i gleifion, dysgu sefydliadol, cymhwysedd y gweithlu yn ymarferol a gwelliannau mesuradwy o ran ansawdd y data.

Yr her fwyaf arwyddocaol i sicrwydd yw oedi wrth drosglwyddo cleifion. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi darparu tystiolaeth o welliannau yn ei pherfformiad trosglwyddo, datblygu llwybrau amgen a mentrau llif cleifion, mae'r risg sy'n gysylltiedig ag oedi wrth drosglwyddo cleifion i Adrannau Achosion Brys yn parhau i gael ei hasesu ar lefel uchaf yr Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn cyfyngu ar lefel y sicrwydd a all ddeillio o'r gwelliannau a ddisgrifiwyd. Mae sicrwydd hefyd wedi'i atal gan y dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael mewn perthynas â chyfraniad byrddau iechyd a phartneriaid system ehangach at wella llif cleifion ledled Cymru.

Ar y cyfan, casglwn fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd cadarnhaol ers ein hadolygiadau blaenorol a'i bod mewn sefyllfa sylweddol gryfach na'r sefyllfa a ddisgrifiwyd yn 2020 a 2021. Fodd bynnag, mae angen rhagor o dystiolaeth cyn y gellir darparu lefel uwch o sicrwydd mewn perthynas ag effeithiolrwydd, cynaliadwyedd ac effaith gwelliannau ar draws y system gyfan. Yn benodol, mae angen sicrwydd pellach mewn perthynas ag effaith barhaus rhaglenni trawsnewid mawr, llai o niwed i gleifion sy'n gysylltiedig ag oedi wrth drosglwyddo cleifion, atebolrwydd a rennir ar draws y system gofal brys ac argyfwng, cydymffurfiaeth weithredol, dysgu sefydliadol a gwelliannau mesuradwy o ran ansawdd y data.

Mae'r adroddiad hwn yn gwneud wyth argymhelliad sy'n gofyn am ymateb ffurfiol gan yr Ymddiriedolaeth. Mae'r argymhellion hyn yn canolbwyntio ar werthuso rhaglenni gwella mawr, atebolrwydd ar draws y system, dangos llai o niwed i gleifion, cydymffurfiaeth weithredol, cyfathrebu â chleifion, dysgu sefydliadol, cymhwysedd y gweithlu ac ansawdd y data. Nodir yr argymhellion yn y cynllun gwella.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein hasesiad o gynnydd Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i fynd i'r afael â'r canfyddiadau a'r argymhellion o adolygiadau 2020 a 2021 AGIC. Mae'n ystyried ymateb yr Ymddiriedolaeth yn 2026 a'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'w gefnogi. Pwrpas yr adroddiad yw cynnig barn gytbwys o ran i ba raddau y mae gwelliannau wedi'u rhoi ar waith, eu hymgorffori a'u cynnal, gan nodi arfer canmoladwy, bylchau sy'n weddill o ran sicrwydd a'r argymhellion ar gyfer gwelliannau pellach.

Roedd adolygiad 2020 yn canolbwyntio ar sut roedd cleifion yn cael eu rheoli gan EMSCCCs o'r pwynt yr oeddent yn derbyn galwad 999 hyd nes bod ambiwlans yn cyrraedd. Ystyriodd AGIC waith rheoli cleifion, y gweithlu a threfniadau llywodraethu sy'n cefnogi ansawdd a diogelwch cleifion. Nododd yr adolygiad bod systemau a phrosesau ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol, ond bod y staff yn gweithio mewn amgylchedd heriol a llawn straen yr oedd capasiti'r gweithlu, cwynion o ran adnoddau, oedi wrth drosglwyddo cleifion, bylchau mewn hyfforddiant, pryderon o ran gweledegd uwch-arweinwyr a phroses anghyson o roi gwybod am ddigwyddiadau yn effeithio arno.

Canolbwyntiodd adolygiad 2021 ar gleifion yn aros mewn ambiwlansys y tu allan i Adrannau Achosion Brys pan oedd oedi wrth drosglwyddo cleifion. Canfu fod oedi hir wrth drosglwyddo cleifion yn ddigwyddiad rheolaidd ledled Cymru ac roedd yn effeithio ar ddiogelwch cleifion, preifatrwydd, urddas, profiad y claf a nifer yr ambiwlansys oedd ar gael. Nododd yr adolygiad hefyd amrywiad mewn prosesau trosglwyddo, ansicrwydd ynghylch atebolrwydd ar gyfer gofal cleifion, angen am brosesau uwchgyfeirio cryfach, cymorth y gweithlu a threfniadau llywodraethu a dysgu mwy effeithiol.

Ni wnaethom edrych ar bob argymhelliad ar wahân. Yn hytrach, gwnaethom ddefnyddio canfyddiadau ac argymhellion adolygiadau 2020 a 2021, ochr yn ochr â deallusrwydd cyfredol AGIC, i nodi themâu cyffredin a meysydd o ddiddordeb parhaus o ran sicrwydd. Gwnaeth hyn ein galluogi i asesu cynnydd mewn ffordd fwy integredig.

Pennodd ymateb yr Ymddiriedolaeth yn 2026 ei sefyllfa ar draws pum thema y gofynnwyd amdanynt: llif cleifion a phrosesau trosglwyddo; prosesau uwchgyfeirio; cyfathrebu â chleifion a chanslo Gwasanaeth Cludo Cleifion Di-frys (NEPTS); arweinyddiaeth; llywodraethu; gweithlu a diwylliant dysgu; ac ansawdd data a chofnodi cywir. Gwnaethom asesu'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn erbyn y themâu hyn, ac ystyriwyd a oedd yn dangos prosesau gweithredu, ymgorffori, effeithiolrwydd a chynaliadwyedd.

Mae ein hasesiad yn gwahaniaethu rhwng tystiolaeth bod trefniadau'n bodoli a bod y trefniadau hynny'n gwneud gwahaniaeth mesuradwy. Mae fframweithiau llywodraethu, polisïau, dangosfyrddau, rhaglenni hyfforddiant a phrotocolau uwchgyfeirio yn bwysig, ond nid ydynt yn dangos effeithiolrwydd na gwelliant parhaus ar eu pen eu hunain.

Felly, ystyriwn drwy gydol yr adroddiad hwn, bresenoldeb gweithgareddau gwella a chryfder y dystiolaeth sy'n dangos effaith hynny.

Thema 1: Llif cleifion, trosglwyddo, rhyddhau criw a llwybrau

Canfyddiadau blaenorol AGIC

Nododd adolygiad 2020 bod oedi wrth drosglwyddo cleifion i'r ysbyty yn ffactor pwysig sy'n effeithio ar allu'r Ymddiriedolaeth i ymateb i gleifion sy'n aros yn y gymuned. Disgrifiodd staff yn gyson mai oedi wrth drosglwyddo cleifion oedd achos sylfaenol y ffaith mai nifer cyfyngedig o ambiwlansys oedd ar gael, ôl-groniadau mewn ciwiau aros am alwadau a chynnydd wrth aros am ymatebion i ambiwlansys brys. Adroddodd yr adolygiad fod bron 9,000 o oriau ambiwlans y mis wedi'u colli yn ystod 2019 oherwydd oedi wrth drosglwyddo cleifion i ysbytai, gyda 13,821 o oriau wedi'u colli ym mis Rhagfyr 2019 yn unig.

Cadarnhaodd adolygiad 2021 fod oedi wrth drosglwyddo cleifion yn parhau i fod yn bryder difrifol ar draws y system. Canfu fod oedi hir wrth drosglwyddo cleifion yn effeithio ar ddiogelwch, preifatrwydd, urddas a phrofiad cleifion, ac yn lleihau gallu'r Ymddiriedolaeth i gydlynu ymatebion amserol i gleifion sy'n aros yn y gymuned. Nododd hefyd brosesau trosglwyddo anghyson, amrywiad rhwng safleoedd, ac ansicrwydd ymhlith staff ynghylch cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar gyfer cleifion pan oedd oedi wrth eu trosglwyddo i'r ysbyty.

Arwyddocâd y canfyddiadau hyn yw bod oedi wrth drosglwyddo cleifion yn creu risg ar sawl pwynt yn y llwybr gofal brys ac argyfwng. Maent yn effeithio ar gleifion sydd eisoes yn aros y tu allan i adrannau achosion brys, maent yn lleihau nifer yr ambiwlansys sydd ar gael, ac yn cynyddu'r pwysau ar EMSCCCs a chriwiau sy'n rheoli cleifion sy'n aros yn y gymuned.

Yr hyn y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i roi ar waith

Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth yn dangos ei bod wedi rhoi ystod eang o fentrau ar waith gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'r Ymddiriedolaeth yn disgrifio symudiad bwriadol i ffwrdd o ystyried oedi wrth drosglwyddo cleifion fel mater trosglwyddo cleifion i ysbyty yn unig a thuag at ddull llif cleifion system gyfan ehangach. Mae hyn yn cynnwys Trawsnewid Model Clinigol, gwaith peilot Fframwaith Perfformiad Ambiwlansys Llywodraeth Cymru, mentrau profi newid gyda byrddau iechyd, camau gweithredu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ac ymatebion i argymhellion Archwilio Cymru. Cefnogir y gwaith o oruchwylio'r pwysau hyn drwy Risgiau 223 a 224 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Mae Risg 223 yn ymwneud â gallu ambiwlansys i ymateb a mynediad at gleifion sy'n aros yn y gymuned, wrth i Risg 224 ymwneud ag oedi wrth drosglwyddo cleifion mewn Adrannau Achosion Brys.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn disgrifio canllawiau trosglwyddo a threfniadau uwchgyfeirio cryfach. Mae'r rhain yn cynnwys Protocolau Rhyddhau Ar Unwaith, Protocolau Uwchgyfeirio Rhanbarthol, Cynllun Gweithredu Uwchgyfeirio Adnoddau, Cynlluniau Diogelwch Clinigol, sgrymiau dyddiol, galwadau uwchgyfeirio cenedlaethol, adroddiadau shifftiau, goruchwylio gorchmynion a dogfennaeth Cofnod Gofal Cleifion Electronig. Mae'r trefniadau hyn yn dangos fframwaith llywodraethu a gweithredol cryfach na'r hyn oedd yn amlwg yn adolygiadau 2020 neu 2021.

Tystiolaeth o gynnydd

Mae tystiolaeth yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys cyfeiriad at y Dangosfwrdd Ansawdd a Pherfformiad Integredig ar gyfer mis Rhagfyr 2025, ac yn nodi bod mis Tachwedd 2025 wedi cofnodi'r nifer isaf a gollwyd i drosglwyddo cleifion ers pedair blynedd, ochr yn ochr â gwelliannau yng nghyfartaledd yr amseroedd trosglwyddo mewn llawer o ysbytai acíwt. Dangosodd y cerdyn sgorio Trawsnewid Model Clinigol hefyd gynnydd yn y cyfraddau ymgynghori a chau a chynnydd yn nifer y penderfyniadau clinigol a wnaed o bell. Disgrifiodd tystiolaeth ategol a gyflwynwyd gan yr Ymddiriedolaeth gynnydd mewn gweithgarwch asesu clinigol o bell a mwy o ddigwyddiadau'n cael eu datrys heb orfod mynd i Adrannau Achosion Brys. Adroddodd yr Ymddiriedolaeth hefyd mai bwriad dileu'r categori canlyniad blaenorol "Dim Anfon/Methu Anfon" oedd darparu mwy o oruchwyliaeth glinigol o'r penderfyniadau hyn a dylanwadu ar ostyngiad yn nifer yr achosion o alw i mewn i Adrannau Achosion Brys.

Mae buddsoddiad yr Ymddiriedolaeth mewn Uwch-ymarferwyr Parafeddygol i'w ganmol yn fawr. Dangosodd ei data yn 2025 fod Uwch-ymarferwyr Parafeddygol yn cludo 35.5% o gleifion i Adrannau Achosion Brys o gymharu â 67% ar gyfer parafeddygon safonol. Adroddwyd mai cyfraddau cludo Llywio Uwch-ymarferwyr Parafeddygol oedd 38.1%. Mae hyn ymhlith y dystiolaeth o ganlyniadau gryfaf a gyflwynwyd oherwydd mae'n dangos gwahaniaeth mesuradwy mewn canlyniadau cludo ac yn cefnogi'r achos y gall modelau Uwch-ymarferwyr Parafeddygol leihau cludiant diangen i'r Adrannau Achosion Brys.

Mae cyflwyno Swyddogion Llywio Clinigol a Gofal Integredig o Bell hefyd yn ymateb yn uniongyrchol i bryderon adolygiad 2020 ynghylch mynediad at gymorth clinigol mewn EMSCCCs. Noda'r Ymddiriedolaeth fod Swyddogion Llywio Clinigol wedi ffrydio 57% o ddigwyddiadau i lwybrau asesu clinigol o bell. Mae hyn yn dangos bod y model yn cael ei ddefnyddio a bod mwy o benderfyniadau clinigol yn cael eu cynnwys yn gynharach yn y llwybr.

Mae'r datblygiadau hyn yn dangos model gweithredol mwy soffistigedig na'r hyn a oedd yn amlwg yn yr adolygiadau blaenorol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau'r broses o wneud penderfyniadau clinigol, wedi cyflwyno goruchwyliaeth weithredol fwy strwythuredig ac wedi datblygu dewisiadau eraill yn lle clustnodi ambiwlansys traddodiadol a chludo i adrannau achosion brys.

Cyfyngiadau o ran sicrwydd

Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae bylchau pwysig o ran sicrwydd yn parhau. Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi darparu adroddiadau gwerthuso ffurfiol sy'n dangos pa ymyriadau sydd wedi achosi'r gwelliannau a nodwyd nac a yw'r gwelliannau hynny'n gynaliadwy. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod modelau Trawsnewid Model Clinigol, Swyddogion Llywio Clinigol, Gofal Integredig o Bell a modelau Uwch-ymarferwyr Parafeddygol yn ganolog i naratif gwella'r Ymddiriedolaeth, ond nid oes tystiolaeth lawn wedi'i dangos eto ynghylch eu heffaith benodol ar oedi wrth drosglwyddo cleifion, llif cleifion, nifer yr ambiwlansys sydd ar gael, a chanlyniadau cleifion.

Rhoddir sgôr o 25 o hyd i Risg 224, sy'n dangos bod oedi wrth drosglwyddo cleifion yn parhau i fod yn risg sylweddol heb ei datrys i'r system. Gwelsom fod presenoldeb parhaus y risg hon ar y sgôr uchaf posibl yn cyfyngu ar faint o sicrwydd y gellir ei gael o'r gwelliannau a ddisgrifiwyd. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi cryfhau rheolaethau ac wedi rhoi mesurau lliniaru ar waith, nid yw'r dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos eto bod y risg sylfaenol sy'n gysylltiedig ag oedi hir wrth drosglwyddo cleifion wedi lleihau digon i ddangos gwelliant parhaus ar draws y system.

Mae tensiwn hefyd rhwng y gwelliannau gweithredol a adroddwyd a'r sgôr risg uchaf barhaus. Os yw'r amseroedd a gollwyd i drosglwyddo cleifion a'r amseroedd trosglwyddo cyfartalog wedi gwella, ond bod y brif risg i drosglwyddo cleifion yn parhau i fod ar y sgôr uchaf, mae angen esboniad pellach. Rydym yn disgwyl i'r Ymddiriedolaeth ystyried a yw'r sgôr risg yn adlewyrchu bregusrwydd parhaus yn y system, amrywiad rhwng safleoedd, risg o ddirywiad yn ystod y broses uwchgyfeirio, neu hyder cyfyngedig bod gwelliannau'n gynaliadwy.

Mae angen rhagor o dystiolaeth hefyd i ddangos a yw'r niwed i gleifion sy'n gysylltiedig ag oedi wrth drosglwyddo cleifion wedi lleihau. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn rhoi sicrwydd bod yr Ymddiriedolaeth wedi rhoi rheolaethau a threfniadau monitro ar waith, ond nid yw'n darparu digon o dystiolaeth o ganlyniadau eto sy'n dangos llai o niwed, gwelliant cynaliadwy i ddiogelwch cleifion, nac effaith fesuradwy ar y system gyfan.

Gwelsom hefyd fod sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd a chynaliadwyedd gwelliannau wrth drosglwyddo cleifion wedi'u cyfyngu gan y dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael gan fyrddau iechyd. Mae llawer o'r gwelliannau a ddisgrifiwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar gamau gweithredu'r system ehangach, gan gynnwys llif cleifion, capasiti'r Adrannau Achosion Brys, trosglwyddiad amserol, trefniadau rhyddhau ar unwaith, sicrhau bod llwybr amgen ar gael, a phrosesau uwchgyfeirio. Felly, ni ellir asesu oedi wrth drosglwyddo cleifion fel mater i'r Ymddiriedolaeth yn unig ei wella.

Nid oes digon o dystiolaeth ychwaith i ddangos bod staff rheng flaen yn deall ac yn cymhwyso canllawiau trosglwyddo cleifion a Gweithdrefnau Gweithredu Safonol yn gyson ar draws pob safle. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi disgrifio polisïau a fframweithiau, ond nid yw'r dystiolaeth yn dangos digon o hyfforddiant ym mhob rhan o'r gweithlu, asesiad o gymwyseddau, archwiliad cydymffurfio, neu dystiolaeth pwyntiau gofal sy'n dangos defnydd cyson yn ystod cyfnodau o bwysau gweithredol.

Asesiad AGIC

Ar y cyfan, gwelsom fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cryfhau ei dull o ymdrin â llif cleifion, oedi wrth drosglwyddo cleifion, llwybrau amgen a goruchwyliaeth weithredol. Mae'r dystiolaeth yn dangos dull mwy aeddfed ac integredig na'r hyn oedd yn amlwg yn ystod ein hadolygiadau blaenorol, gan gynnwys trefniadau llywodraethu cryfach, gwneud penderfyniadau clinigol gwell, mwy o ddefnydd o lwybrau amgen a goruchwyliaeth well o bwysau gweithredol.

Gwelsom dystiolaeth bod sawl menter gwella wedi'u rhoi ar waith a'u hymgorffori mewn trefniadau gweithredol a llywodraethu arferol. Ymhlith yr enghreifftiau cadarnhaol mae datblygu modelau Uwch-ymarferwyr Parafeddygol a Llywio Uwch-ymarferwyr Parafeddygol, cyflwyno Swyddogion Llywio Clinigol a Gofal Integredig o Bell, trefniadau uwchgyfeirio a throsglwyddo cryfach, a mwy o ffocws sefydliadol ar lif cleifion system gyfan. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd hefyd yn dangos rhai gwelliannau mesuradwy, gan gynnwys cyfraddau cludo is drwy lwybrau clinigol uwch a gostyngiadau a adroddwyd mewn oriau a gollwyd wrth drosglwyddo cleifion.

Fodd bynnag, er bod tystiolaeth dda o weithredu ar y cyfan, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi darparu digon o wybodaeth eto sy'n dangos effeithiolrwydd, cynaliadwyedd ac effaith llawer o'r mentrau hyn. Yn benodol, mae'r dystiolaeth yn parhau i fod yn gyfyngedig ynghylch y cyfraniad penodol y mae rhaglenni trawsnewid mawr wedi'u gwneud i leihau oedi wrth drosglwyddo cleifion, gwella nifer yr ambiwlansys sydd ar gael, lleihau niwed i gleifion a chyflawni gwelliannau parhaus ar hyd a lled y system.

Mae'r cyfyngiadau hyn yn golygu, er bod yr Ymddiriedolaeth wedi dangos gweithgarwch lliniaru helaeth a bod rhai wedi sôn am welliant gweithredol, nid yw'r dystiolaeth eto'n rhoi digon o sicrwydd bod y risg strategol sylfaenol sy'n gysylltiedig ag oedi wrth drosglwyddo cleifion wedi lleihau.

Ar y cyfan, rydym yn dod i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth mewn sefyllfa gryfach nag yr oedd adeg ein hadolygiadau blaenorol yn ymwneud â llif cleifion, oedi wrth drosglwyddo cleifion a llwybrau amgen. Fodd bynnag, mae angen rhagor o sicrwydd cyn y gellir darparu lefelau uwch o sicrwydd mewn perthynas ag effeithiolrwydd, cynaliadwyedd ac effaith y gwelliannau a ddisgrifiwyd ar draws y system gyfan.

Thema 2: Prosesau uwchgyfeirio

Canfyddiadau blaenorol AGIC

Nododd adolygiad 2020 bryderon ynghylch cysondeb trefniadau uwchgyfeirio'r Cynllun Gweithredu Uwchgyfeirio Adnoddau a'r Cynllun Rheoli Galw. Adroddodd y staff nad oedd lefelau uwchgyfeirio ac isgyfeirio bob amser yn cael eu cymhwyso'n gyson ac nad oedd y rhesymeg dros benderfyniadau uwchgyfeirio bob amser yn glir. Canfu'r adolygiad hefyd nad oedd uwch-reolwyr yn mynychu EMSCCCs yn rheolaidd yn unol â'r

cyfarwyddyd mewn prosesau uwchgyfeirio, yn enwedig y tu allan i oriau.

Roedd y canfyddiadau hyn yn bwysig oherwydd bod prosesau uwchgyfeirio yn ganolog i reoli galw, risg glinigol a phwysau gweithredol. Gall uwchgyfeirio anghyson effeithio ar amseroldeb gwneud penderfyniadau, eglurder cyfrifoldebau a gallu'r staff i ymateb yn effeithiol yn ystod cyfnodau o alw mawr.

Yr hyn y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i roi ar waith

Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth yn dangos bod y trefniadau uwchgyfeirio wedi'u cryfhau'n sylweddol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd bod prosesau uwchgyfeirio bellach wedi'u nodi mewn Gweithdrefnau Gweithredu Safonol a pholisïau gweithredol, gyda sbardunau uwchgyfeirio, rolau a chyfrifoldebau, a llwybrau gwneud penderfyniadau clinigol a gweithredol diffiniedig. Mae goruchwyliaeth hefyd wedi'i chryfhau drwy fodel Rheoli Cydlynu Canolfannau Cyswllt Clinigol diwygiedig. Yn ogystal, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno rôl Rheolwr Gweithrediadau sy'n monitro perfformiad ac uwchgyfeirio ar lefel genedlaethol.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi darparu dogfennaeth uwchgyfeirio, gan gynnwys Gweithdrefn Weithredu Safonol Ymateb i Ddigwyddiadau Clinigol y Canolfannau Cyswllt Clinigol, Cynllun Parhad Busnes Cydlynu'r Canolfannau Cyswllt Clinigol, Adroddiadau ar Brif Bwyntiau'r Cyfarfod Ansawdd, a Chynllun Ymateb i Ddigwyddiadau'r Ymddiriedolaeth. Mae'r dogfennau hyn yn dangos bod trefniadau uwchgyfeirio yn cael eu disgrifio a'u monitro drwy brosesau llywodraethu.

Tystiolaeth o gynnydd

Gwelsom dystiolaeth gadarnhaol mewn perthynas â Swyddogion Llywio Clinigol. Mae Fframwaith Sicrwydd Ansawdd y Swyddogion Llywio Clinigol yn darparu hyfforddiant strwythuredig, sefydlu ac archwilio parhaus, gan gynnwys gwiriadau ar wneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig ag uwchgyfeirio. Mae'n cynnwys archwiliadau misol, sgorio gwyriadau a phrosesau adborth. Mae hwn yn fodel sicrhau ansawdd cryfach na'r hyn a welwyd ar adeg adolygiad 2020 ac mae'n cynnig enghraifft gadarnhaol o sut mae'r Ymddiriedolaeth yn gwirio a gaiff penderfyniadau uwchgyfeirio eu gwneud yn briodol mewn grŵp staff diffiniedig.

Felly, mae'r model Swyddog Llywio Clinigol yn cynnig llinell gliriach rhwng hyfforddiant, archwilio, adborth ac ymarfer ar gyfer un grŵp staff pwysig. Mae hyn yn gadarnhaol oherwydd ei fod yn mynd y tu hwnt i ddisgrifio polisi gan ddarparu rhywfaint o dystiolaeth o sicrhau ansawdd mewn ymarfer.

Cyfyngiadau o ran sicrwydd

Mae'r dystiolaeth yn gryfach ar gyfer Swyddogion Llywio Clinigol nag ar gyfer grwpiau staff eraill yr EMSCCCs. Gwelsom dystiolaeth gyfyngedig o gofnodion cwblhau hyfforddiant ffurfiol, cymeradwyo cymwyseddau neu asesiad gweithlu-gyfan o'r ddealltwriaeth o uwchgyfeirio ar gyfer swyddogion trin galwadau, staff clustnodi gwaith a goruchwylwyr. Mae'r adroddiadau sicrhau ansawdd, ymchwiliadau i gwynion,

adolygiadau o ddigwyddiadau a gweithgareddau archwilio a gyflwynwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn parhau i nodi problemau sy'n ymwneud â blaenoriaethu galwadau, cywirdeb codio, cydymffurfio â phrotocolau a defnyddio prosesau gweithredol yn gyson. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod amrywiad o ran dealltwriaeth a chymhwyso yn parhau ac yn cefnogi'r angen am weithgarwch sicrwydd a gwella parhaus.

Caiff y model sicrhau ansawdd hefyd ei bwysoli tuag at adolygiad ôl-weithredol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn disgrifio adolygiadau o alwadau, archwiliadau achosion, ymchwiliadau i ddigwyddiadau, ac adroddiadau Datix, ond mae tystiolaeth gyfyngedig o archwiliadau penodol i uwchgyfeirio rhagweithiol sy'n asesu a yw prosesau uwchgyfeirio'n cael eu dilyn yn gyson mewn gweithrediadau o ddydd i ddydd. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi rhoi trefniadau ar waith i fynd i'r afael â'r ôl-groniad ehangach o ddigwyddiadau gweithredol, gall graddfa'r digwyddiadau heb eu datrys gyfyngu ar amseroldeb sicrwydd, ymchwiliadau a dysgu sefydliadol.

Asesiad AGIC

Ar y cyfan, gwelsom fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran cryfhau trefniadau uwchgyfeirio ers ein hadolygiad yn 2020. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod prosesau uwchgyfeirio bellach yn cael eu cefnogi gan drefniadau llywodraethu cliriach, fframweithiau gweithredol diffiniedig, gweithdrefnau wedi'u dogfennu a goruchwyliaeth gryfach gan reolwyr. Mae strwythur rheoli cydlynu diwygiedig y Canolfannau Cyswllt Clinigol a chyflwyno trefniadau monitro uwchgyfeirio gwell yn darparu fframwaith mwy cadarn na'r hyn oedd yn amlwg adeg ein hadolygiad blaenorol.

Gwelsom dystiolaeth gadarnhaol hefyd fod agweddau ar y broses uwchgyfeirio yn destun proses sicrhau ansawdd a goruchwyliaeth, yn enwedig drwy Fframwaith Sicrhau Ansawdd y Swyddogion Llywio Clinigol.

Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn gryfach ar gyfer Swyddogion Llywio Clinigol nag ydoedd ar gyfer gweithlu ehangach yr EMSCCCs. Mae angen sicrwydd pellach i ddangos dealltwriaeth a defnydd cyson o brosesau uwchgyfeirio ymhlith swyddogion trin galwadau, staff clustnodi gwaith a goruchwylwyr, ac i ddangos bod trefniadau sicrwydd rhagweithiol yn profi ymarfer yn rheolaidd yn ystod gweithrediadau o ddydd i ddydd.

Ar y cyfan, rydym yn dod i'r casgliad bod trefniadau uwchgyfeirio wedi gwella'n sylweddol ac yn cael eu cefnogi gan strwythurau llywodraethu a sicrwydd cryfach na'r hyn oedd yn amlwg yn 2020. Fodd bynnag, mae angen sicrwydd pellach i ddangos dealltwriaeth gyson ar draws y gweithlu, cymhwysedd mewn ymarfer, a bod dysgu o faterion uwchgyfeirio yn cael ei rannu a'i ymgorffori'n effeithiol.

Thema 3: Cyfathrebu â chleifion a chanslo NEPTS

Cyfathrebu â chleifion yn ystod achosion o oedi

Mae cyfathrebu â chleifion yn ystod achosion o oedi yn un o brofiadau allweddol y claf ac yn fater sy'n ymwneud ag urddas. Tynnodd ein hadolygiad yn 2020 sylw at bryderon yn ymwneud â galwadau gwirio lles, gan gynnwys yr anhawster a brofodd staff wrth gynnal gwiriadau lles amserol yn ystod cyfnodau o alw mawr a'r rhwystredigaeth a achoswyd pan nad oedd staff yn gallu darparu amseroedd cyrraedd disgwyliedig clir. Canfu ein hadolygiad yn 2021 hefyd fod oedi wrth drosglwyddo cleifion yn effeithio ar brofiad y claf, gan gynnwys mynediad at anghenion sylfaenol, urddas a chyfathrebu yn ystod cyfnodau hir o aros.

Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth yn disgrifio fframwaith ar gyfer cyfathrebu â chleifion yn ystod achosion o oedi. Mae hyn yn cynnwys sgriptiau amser cyrraedd disgwyliedig, safonau polisi, canllawiau clinigol a gweithredol, datganiadau i'r cyfryngau, trefniadau goruchwylio gweithredol a'r defnydd o adborth ar brofiad y claf, cwynion, digwyddiadau, prosesau'r Ddyletswydd Gonestrwydd ac adborth gan staff i lywio dysgu a gwelliannau. Mae hyn yn dangos bod yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod cyfathrebu yn un o'r elfennau pwysig o ran ansawdd, diogelwch, urddas a phrofiad y claf.

Cyfyngiadau o ran sicrwydd

Ar adeg ein hasesiad, gwelsom fod y dystiolaeth oedd ar gael yn rhoi mwy o sicrwydd ynghylch bodolaeth prosesau cyfathrebu, trefniadau llywodraethu a dulliau goruchwylio na'u heffeithiolrwydd ar lefel ymarferol. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi disgrifio'r trefniadau sydd ar waith, gwelsom mai ttystiolaeth gyfyngedig oedd i ddangos a oedd cyfathrebu'n gwella profiad y claf yn gyson yn ystod cyfnodau o oedi a phwysau gweithredol.

Ers cwblhau ein hasesiad, mae'r Ymddiriedolaeth wedi darparu tystiolaeth ychwanegol drwy ei Chynllun Gwella, gan gynnwys canfyddiadau o arolwg profiad y claf, gweithgareddau archwilio ansawdd, adroddiadau ar lywodraethu, dadansoddi canmoliaeth ac adborth gan gleifion. Mae'r dystiolaeth hon yn darparu dangosyddion cadarnhaol mewn perthynas ag urddas, cyfranogiad mewn gofal a darparu gwybodaeth i gleifion ac yn dangos bod trefniadau cyfathrebu yn destun monitro ac adolygu rheolaidd.

Er bod y dystiolaeth ychwanegol hon yn rhoi sicrwydd pellach, bydd monitro a gwerthuso parhaus yn parhau i fod yn bwysig i ddangos cysondeb ac effeithiolrwydd trefniadau cyfathrebu yn ystod cyfnodau hir o oedi a phwysau gweithredol sylweddol. O ystyried canfyddiadau adolygiadau blaenorol AGIC mewn perthynas ag effaith achosion o oedi ar brofiad y claf, urddas a llesiant, dylai unrhyw sicrwydd yn y dyfodol barhau i ganolbwyntio ar ddangos gwelliannau parhaus ym mhrofiad y claf ac mewn canlyniadau cyfathrebu.

Canslo Gwasanaeth Cludo Cleifion Di-frys

Mae'r dystiolaeth sy'n ymwneud â NEPTS yn gryfach. Adroddodd yr Ymddiriedolaeth fod y gwasanaeth wedi cwblhau 552,602 o deithiau ac wedi cofnodi 169,895 o achosion o ganslo yn ystod 2025. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth fod y rhan fwyaf o'r achosion hyn o ganslo wedi digwydd cyn i broses gynllunio'r gwasanaeth ddechrau, yn amlaf oherwydd bod apwyntiadau wedi'u newid, wedi'u canslo, neu am nad oedd angen trafnidiaeth mwyach. O'r 63,368 o deithiau a gafodd eu canslo o fewn pedair awr i amser arfaethedig yr apwyntiad, cafodd y mwyafrif eu canslo gan ysbytai neu gan gleifion. Cafodd 29,434 o deithiau pellach eu canslo o dan Gynllun Rheoli Capasiti'r Ymddiriedolaeth lle'r oedd y galw'n fwy na'r capasiti oedd ar gael. Nododd yr Ymddiriedolaeth hefyd nad yw nifer y teithiau'n cyfateb yn uniongyrchol i gleifion unigol gan fod y rhan fwyaf o gleifion wedi trefnu teithiau i'r safle ac oddi yno. Disgrifiodd yr Ymddiriedolaeth fod perfformiad canslo bob dydd, bob wythnos, ar lefel cyfarwyddiaeth ac ar lefel Bwrdd yn cael ei fonitro.

Gwelsom fod yr Ymddiriedolaeth yn dangos dealltwriaeth glir o'r heriau o ran capasiti sy'n effeithio ar NEPTS. Nododd y dystiolaeth a gyflwynwyd bwysau sy'n gysylltiedig nid yn unig â lefelau gweithgaredd cynyddol ond hefyd â chynyddu cymhlethdod y gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys teithiau hwy, cleifion ag aciwtedd uwch, llai o wirfoddolwyr ar gael i yrru, mwy o ddibyniaeth ar ddarpariaeth ambiwlans arbenigol ar gyfer gwasanaethau arennol a mwy o filltiroedd sy'n gysylltiedig â gwasanaethau oncoleg a chleifion allanol.

Darparodd yr Ymddiriedolaeth dystiolaeth hefyd o welliannau mewn sawl mesur amseroldeb, gan gynnwys perfformiad o ran cleifion allanol sy'n dod i mewn, gwasanaethau oncoleg ac arennol. Yn ogystal, disgrifiodd yr Ymddiriedolaeth nifer o fesurau lliniaru, gan gynnwys systemau cadarnhau â neges destun, prosesau trefnu a chanslo apwyntiadau gwell, cyfathrebu gwell â chleifion, integreiddio systemau, adolygu'r rhestr gweithio, recriwtio gyrwyr gwirfoddol a gwelliannau i gynllunio teithiau.

Fodd bynnag, er gwaethaf y camau hyn, mae'r lefelau canslo yn parhau i fod yn sylweddol ac mae'r capasiti yn parhau i fod yn annigonol i fodloni'r lefelau galw presennol. Gwelsom fod llawer o'r ffactorau sy'n cyfrannu at achosion o ganslo yn ymestyn y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth ac maent yn debygol o olygu bod angen penderfyniadau gan gomisiynwyr, rhanddeiliaid a byrddau iechyd mewn perthynas â chapasiti'r gwasanaeth, meini prawf cymhwysedd, safonau gwasanaethau a buddsoddiad.

Asesiad AGIC

Gwelsom lefelau cymysg o sicrwydd ar draws y thema hon ar y cyfan. Mewn perthynas â chyfathrebu â chleifion yn ystod achosion o oedi, mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu trefniadau llywodraethu, canllawiau, prosesau cyfathrebu a mecanweithiau goruchwylio. Ar adeg yr adolygiad, roedd tystiolaeth gyfyngedig yn dangos effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn ymarferol. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ychwanegol a ddarparwyd wedi hynny drwy Gynllun Gwella'r Ymddiriedolaeth, gan

gynnwys canfyddiadau o arolwg profiad y claf, gweithgareddau archwilio ansawdd, adrodd ar lywodraethu ac adborth gan gleifion, yn rhoi sicrwydd pellach ynghylch profiad y claf, gan gynnwys dangosyddion cadarnhaol sy'n ymwneud ag urddas, cyfranogiad ac esboniad. Er bod y dystiolaeth hon yn galonogol, bydd monitro parhaus yn bwysig i ddangos cysondeb ac effeithiolrwydd trefniadau cyfathrebu yn ystod cyfnodau o oedi a phwysau gweithredol.

Mae'r dystiolaeth yn gryfach mewn perthynas â NEPTS. Dangosodd yr Ymddiriedolaeth ddealltwriaeth glir o'r heriau sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau a darparodd dystiolaeth o drefniadau monitro, mesurau lliniaru a rhai gwelliannau mesuradwy mewn perfformiad. Gwelsom fod yr Ymddiriedolaeth wedi defnyddio dull rhagweithiol o reoli'r cynnydd yn y galw a chymhlethdod y gwasanaeth, er bod lefelau canslo yn parhau i fod yn sylweddol a bod capasiti yn parhau i gynrychioli her barhaus.

Ar y cyfan, gwelsom fod yr Ymddiriedolaeth wedi dangos cynnydd o ran ei dull o gyfathrebu â chleifion a rheoli pwysau NEPTS. Mae'r dystiolaeth ychwanegol a ddarparwyd drwy'r Cynllun Gwella yn cryfhau sicrwydd ynghylch cyfathrebu â chleifion, yn enwedig mewn perthynas â monitro profiad y claf a goruchwylio llywodraethu. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i wynebu heriau sylweddol o ran capasiti yn NEPTS a bydd angen sicrwydd pellach i ddangos gwelliannau cynaliadwy ym mhrofiad y claf, gostyngiadau mewn achosion o ganslo y gellir eu hosgoi ac effeithiolrwydd hirdymor mesurau gwella.

Thema 4: Arweinyddiaeth, llywodraethu, gweithlu a hyfforddiant

Arweinyddiaeth a Llywodraethu

Nododd adolygiad 2020 bryderon ynghylch gweledegdd uwch-arweinwyr, cyfathrebu ac ymgysylltu â staff gweithredol. Canfu fod 70% o ymatebwyr arolwg EMSCCC yn teimlo bod cyfathrebu rhwng uwch-reolwyr a staff gweithredol yn aneffeithiol, a bod staff yn teimlo nad oedd pryderon bob amser yn cael eu clywed, eu cydnabod, na'u trin.

Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth yn dangos gwelliant strwythurol sylweddol. Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth strwythur gyrfa Cydlynu Canolfannau Cyswllt Clinigol diwygiedig ym mis Tachwedd 2024, gan gynnwys swyddi rheoli ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys y rôl Rheolwr Gweithrediadau Band 7 a ddisgrifiwyd yn gynharach, ynghyd â Rheolwyr Ardal Band 8a ar gyfer pob un o'r tair canolfan gydlynu, gan ddarparu arweinyddiaeth weithredol gryfach, goruchwyliaeth uwchgyfeirio a llinell gliriach rhwng Swyddogion Galwadau Band 3 a'r Pennaeth Gwasanaeth. Mae cyflwyno Swyddogion Llywio Clinigol hefyd yn darparu arweinyddiaeth a goruchwyliaeth glinigol well bob awr o'r dydd a'r nos

Mae'r datblygiadau hyn yn ganmoladwy oherwydd eu bod yn ymateb yn uniongyrchol i bryderon blaenorol AGIC ynghylch presenoldeb arweinyddiaeth a llywodraethu. Mae'r

strwythur diwygiedig yn rhoi sylfaen gryfach ar gyfer goruchwyliaeth weithredol, cymorth staff ac uwchgyfeirio. Mae'n awgrymu hefyd fod yr Ymddiriedolaeth wedi cydnabod bod rhaid ymgorffori presenoldeb arweinwyr mewn trefniadau gweithredol arferol yn hytrach na bod yn ddibynnol ar ymyrraeth ad hoc gan uwch-swyddogion.

Fodd bynnag, gwelsom fod y dystiolaeth yn parhau i fod yn ddisgrifiadol gan mwyaf. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dangos bod strwythurau arweinyddiaeth wedi newid ond nid yw wedi darparu digon o dystiolaeth i ddangos bod y newidiadau hyn wedi gwella profiad y staff, diogelwch seicolegol, cyfathrebu, gwneud penderfyniadau gweithredol, na risg llywodraethu. Felly, dylai sicrwydd yn y dyfodol asesu effaith y newidiadau hyn, nid dim ond y broses o'u rhoi ar waith.

Dysgu ac adborth gan staff

Nododd adolygiad 2020 fod staff am gael dulliau mwy effeithiol i gyflwyno barn ac awgrymiadau a chael adborth ar y canlyniad. Canfu hefyd bryderon ynghylch adrodd ar ddigwyddiadau, gan gynnwys ansicrwydd ynghylch yr hyn y dylid adrodd arno, amser cyfyngedig i gwblhau adroddiadau, a diffyg adborth yn dilyn cyflwyniadau Datix.

Mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn disgrifio nifer o ddulliau ar gyfer adborth gan staff a dysgu sefydliadol, gan gynnwys cyfranogiad staff GIG Cymru mewn arolygon, arolygon pwls, fforymau ymgysylltu lleol, trefniadau partneriaeth gymdeithasol, Asesiadau Effaith Ansawdd, a'r rhaglen Trawsnewid Model Clinigol. Cefnogir y mecanweithiau hyn gan 'SimplyDo', Datix, y Ddyletswydd Gonestrwydd, a goruchwyliaeth o Rwydwaith Gwella a Grŵp Rheoli Ansawdd yr Ymddiriedolaeth.

Ceir enghreifftiau cadarnhaol lle mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi bod cyfranogiad staff yn yr arolwg wedi cynyddu i 43.2% yn 2025, o'i gymharu â 35.2% yn 2024 a 23.2% yn 2023. Mae hefyd yn disgrifio sut y dylanwadodd arolwg diwylliannol 2025 ar y rhaglen Trawsnewid Model Clinigol, gan arwain at ddiwygiadau yng nghyflymder y rhaglen, eglurder rolau, cymorth rheoli newid a disgwyliadau'r arweinwyr.

Fodd bynnag, nid yw mwy o gyfranogiad yn yr arolwg, ynddo'i hun, yn dangos profiad gwell gan staff na diogelwch seicolegol. Mae'n galonogol oherwydd gall ddangos mwy o ymgysylltiad, ond mae angen rhagor o dystiolaeth i ddangos a yw adborth gan staff wedi arwain at newid mesuradwy, a yw hyder y staff wedi gwella, ac a eir i'r afael â phryderon a godwyd drwy ddulliau adborth gyson a'u cau.

Gwelsom nad yw'r dystiolaeth eto'n dangos bod dolenni adborth yn cael eu cau'n gyson. Mae'r Ymddiriedolaeth yn casglu adborth, ond mae'r dystiolaeth yn gyfyngedig o ran dangos pa benderfyniadau a wnaed o ganlyniad i hynny, beth a newidiodd yn ymarferol, a gafodd gwelliannau eu mesur ac a gawsant eu cynnal. Mae hyn yn cyfyngu ar y sicrwydd y caiff adborth gan staff ei ymgorffori yn y penderfyniadau a wneir mewn ffordd amlwg a systematig.

Dyletswydd Gonestrwydd, adrodd a lleisio barn

Disgrifiodd yr Ymddiriedolaeth hefyd sut mae Dyletswydd Gonestrwydd, Datix ac

adroddiadau ‘Always On’ yn cyfrannu at ei threfniadau dysgu ehangach. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos eto pa mor glir y caiff y gwersi o'r llwybrau hyn eu dwyn ynghyd, sut yr eir i'r afael â nhw a'u holrhain i welliannau.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau trefniadau lleisio barn ers adolygiad 2020. Gall y staff nawr godi pryderon drwy reolwyr llinell, adrodd digwyddiadau ffurfiol, y fframwaith Codi Llais Heb Ofn, Work in Confidence a llwybrau adborth eraill. Penodwyd Prif Warcheidwad llawn amser ym mis Mehefin 2024, ac adroddodd yr Ymddiriedolaeth fod 113 o bryderon wedi’u codi rhwng mis Gorffennaf 2024 a mis Mehefin 2025. Gwelsom fod hyn yn dangos bod staff yn ymwybodol o'r dulliau adrodd sydd ar gael, ac yn eu defnyddio. Adroddodd yr Ymddiriedolaeth hefyd fod archwiliad Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cadarnhau bod trefniadau llywodraethu cryf, prosesau clir a bod pryderon yn cael eu trin yn ddiogel.

Fodd bynnag, nid yw nifer y pryderon a godwyd, ynddo'i hun, yn rhoi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau lleisio barn. Nid yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos yn ddigonol natur y pryderon a godwyd, y camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny, y gwersi a ddysgwyd, na ph'un a wnaeth y pryderon arwain at welliannau mesuradwy. Felly mae angen rhagor o dystiolaeth i ddangos bod trefniadau lleisio barn yn cyfrannu at ddiwylliant agored, dysgu gwersi a diogelwch seicolegol, a bod pryderon a godir gan staff yn arwain at welliannau amlwg a pharhaus.

Llesiant y gweithlu

Llesiant y gweithlu yw un o'r meysydd tystiolaeth cryfaf. Nododd adolygiad 2020 absenoldeb oherwydd salwch, straen, morâl, a chapasiti'r gweithlu fel materion allweddol. Bryd hynny, roedd lefelau salwch EMSCCC tua 10%, a disgrifiodd y staff y pwysau sylweddol sy'n deillio o'r galw, oedi wrth drosglwyddo a chyfyngiadau staffio.

Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth yn disgrifio fframwaith llesiant ehangach. Mae hyn yn cynnwys cymorth iechyd galwedigaethol, rhaglenni gwydnwch, gweithio hyblyg, mesurau diogelwch seicolegol, rheoli risg trawma, hyfforddiant risg hunanladdiad a mynediad at raglenni cymorth i gyflogeion. Mae hefyd yn cynnwys sesiynau galw heibio llesiant, gweithdai straen a chwsg, Rhwydweithiau Pobl a goruchwyliaeth y Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi darparu data gweithlu sefydliadol sy'n dangos bod absenoldeb salwch wedi gostwng o uchafbwynt o 12.5% ym mis Rhagfyr 2021 i 9.26% ym mis Rhagfyr 2025, gan gofnodi isafswm o 6.81% ym mis Mai. Er bod y ffigurau hyn yn ymwneud â gweithlu ehangach yr Ymddiriedolaeth yn hytrach nag EMSCCC yn benodol ac felly nad ydynt yn cymharu'n uniongyrchol â'r lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn adolygiad EMSCCC 2020, maent yn rhoi rhywfaint o dystiolaeth o welliant mewn absenoldeb oherwydd salwch sefydliadol dros amser.

Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth yn dangos yn glir pa ymyriadau penodol a gyfrannodd at y gostyngiad mewn absenoldeb oherwydd salwch, a yw'r gwelliannau'n cael eu

cynnal ar draws pob gwasanaeth a grŵp staff, neu a yw profiad staff wedi gwella ochr yn ochr â'r gostyngiad mewn absenoldeb.

Hyfforddi a datblygu

Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth yn dangos gwelliant sylweddol. Mae'n disgrifio goruchwyliaeth y Bwrdd o hyfforddiant, fframwaith arweinyddiaeth 'Ein Ffordd', cyfarwyddyd cymwysedig International Academies of Emergency Dispatch, ardystiad Swyddog Clustnodi Gwaith Meddygol Brys, sesiynau sefydlu wedi'u strwythuro, a sesiynau mentora a chymeradwyo galwadau. Mae hefyd yn disgrifio sefydlu gofal integredig o bell, hyfforddiant Datix a chwynion, hyfforddiant mewn swydd gorfodol, olrhain ESR, datblygiad proffesiynol parhaus a chymwysterau wedi'u rheoleiddio. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi nodi bod hyfforddiant mewn swydd gorfodol wedi rhoi sicrwydd rhesymol wrth archwilio.

Mae hyn yn cynrychioli aeddfedrwydd sylweddol y seilwaith hyfforddi ers adolygiad 2020. Fodd bynnag, gwelsom fod y dystiolaeth yn dangos yr hyfforddiant sydd ar gael, presenoldeb a threfniadau llywodraethu yn gliriach na chymhwysedd mewn ymarfer. Dylai sicrwydd pellach ddangos a yw staff yn cymhwyso hyfforddiant yn gyson yn ystod gofal trosglwyddo estynedig, uwchgyfeirio, dogfennu risg ac adrodd ar ddigwyddiadau.

Asesiad AGIC

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth sylweddol o gynnydd ar draws arweinyddiaeth, llywodraethu, dysgu sefydliadol, llesiant y gweithlu, trefniadau lleisio barn a hyfforddiant. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi buddsoddi mewn capasiti arwain, gan ehangu dulliau hefyd ar gyfer ymgysylltu â staff, adborth a lleisio barn. Yn ogystal, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ehangu ei chymorth llesiant ac wedi datblygu seilwaith hyfforddi a datblygu mwy cynhwysfawr i gefnogi staff ar draws y sefydliad. Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn cynrychioli fframwaith llywodraethu a chefnogi'r gweithlu mwy aeddfed na'r hyn a ddisgrifiwyd yn ein hadolygiad yn 2020.

Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn parhau i fod yn gryfach wrth ddangos bod trefniadau'n bodoli nag ydyw wrth ddangos eu heffeithiolrwydd a'u heffaith. Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi darparu digon o dystiolaeth eto mewn sawl maes, gan gynnwys gweledegdd arweinwyr, dysgu sefydliadol, trefniadau lleisio barn, diogelwch seicolegol a datblygu'r gweithlu i ddangos sut mae'r mentrau hyn wedi gwella profiad staff, diwylliant sefydliadol, cymhwysedd wrth ymarfer na chanlyniadau dysgu.

Ar y cyfan, gwelsom fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol i fynd i'r afael â llawer o bryderon y gweithlu a phryderon ynghylch llywodraethu a nodwyd mewn adolygiadau blaenorol AGIC. Dylai sicrwydd yn y dyfodol ganolbwyntio ar effaith fesuradwy, dysgu mewn dolen gaeedig, profiad gwell i staff a thystiolaeth bod mentrau datblygu'r gweithlu a llesiant y gweithlu yn trosi'n newidiadau cynaliadwy mewn ymarfer a diwylliant sefydliadol.

Thema 5: Ansawdd data a chofnodi cywir

Canfyddiadau blaenorol AGIC ac ymateb yr Ymddiriedolaeth

Mae data cywir yn hanfodol ar gyfer cyfraddau sicrwydd, monitro perfformiad, cynllunio gwasanaethau, diogelwch cleifion ac adroddiadau gan Lywodraeth Cymru. Nododd adolygiad 2021 bryderon ynghylch cofnodi amseroedd trosglwyddo yn gywir drwy brosesau PIN deuol. Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth yn dangos dull llywodraethu digidol ac ansawdd data cryfach.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn disgrifio Cynllun Digidol wedi'i adnewyddu ar gyfer 2024–2029 ac ehangu'r Tîm Sicrhau Ansawdd Data o 0.6 i 2.6 cyfwerth ag amser llawn. Mae hefyd yn disgrifio modiwl e-ddysgu wedi'i deilwra, metrigau ansawdd data, ac adroddiadau drwy'r Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth a'r Grŵp Rheoli Asedau Gwybodaeth. Yn ogystal, mae'r Ymddiriedolaeth yn disgrifio'r Cofnod Gofal Cleifion Electronig (ePCR) a'r defnydd parhaus o'r broses PIN deuol.

Mae'r datblygiadau hyn yn cynnig sylfaen gryfach ar gyfer sicrwydd yn y dyfodol na'r hyn a welwyd yn yr adolygiadau cynharach.

Cyfyngiadau o ran sicrwydd

Gwelsom dystiolaeth gyfyngedig a oedd yn dangos gwelliannau mesuradwy. Ni ddarparodd yr Ymddiriedolaeth ganlyniadau digonol o archwiliadau ePCR, data o dueddiadau, adroddiadau ar gydymffurfiaeth â'r PIN deuol, dadansoddiad o amrywiad ar lefel safle nac enghreifftiau o nodi, cywiro nac atal problemau ansawdd data rhag digwydd eto.

Mae hyn yn bwysig am fod ansawdd y data yn ategu sicrwydd o ran perfformiad trosglwyddo, nifer yr ambiwlansys sydd ar gael, diogelwch cleifion, adroddiadau Llywodraeth Cymru a gwneud penderfyniadau gweithredol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi disgrifio'r trefniadau llywodraethu a fwriadwyd i wella ansawdd data, ac mae sawl dull sicrwydd eisoes ar waith. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod y trefniadau hyn yn cynhyrchu data cywir, cyflawn ac amserol yn gyson ar lefel ymarferol.

Asesiad AGIC

Ar y cyfan, gwelsom fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran cryfhau ei dull o ymdrin ag ansawdd data a llywodraethu digidol. Mae'r Cynllun Digidol diwygiedig, ehangu capasiti ansawdd data pwrpasol a goruchwyliaeth drwy strwythurau pwyllgor sefydledig yn dangos mwy o ffocws sefydliadol ar ansawdd data, a hynny fel mater llywodraethu ac fel mater diogelwch cleifion. Mae hyn yn cynrychioli dull mwy aeddfed na'r hyn a welwyd yn ystod ein hadolygiad blaenorol ac yn rhoi sylfaen gryfach ar gyfer sicrwydd, monitro perfformiad, cynllunio gwasanaethau ac adrodd.

Fodd bynnag, er bod yr Ymddiriedolaeth wedi dangos bod trefniadau llywodraethu, dulliau goruchwylio a mentrau gwella ar waith, roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn llai effeithiol wrth ddangos gwelliannau mesuradwy mewn canlyniadau ansawdd data. Yn

benodol, gwelsom dystiolaeth gyfyngedig yn ymwneud â chanfyddiadau archwiliadau ePCR, tueddiadau mewn perfformiad ansawdd data, cydymffurfiaeth PIN deuol, amrywiad ar lefel safle ac enghreifftiau a oedd yn dangos sut y caiff problemau ansawdd data eu nodi, sut yr eir i'r afael â nhw a'u hatal rhag digwydd eto.

Mae data cywir a dibynadwy yn hanfodol i sicrwydd ynghylch perfformiad trosglwyddo, nifer yr ambiwlansys sydd ar gael, diogelwch cleifion a pherfformiad ehangach y gwasanaeth. Felly, dylai sicrwydd yn y dyfodol ganolbwyntio ar ddangos gwelliannau mesuradwy mewn uniondeb data a darparu tystiolaeth bod gwelliannau ansawdd data yn cefnogi'r broses gwneud penderfyniadau gweithredol, cynllunio gwasanaethau a dysgu sefydliadol.

4. Casgliad a'r camau nesaf

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr Ymddiriedolaeth a'r ddogfennaeth ategol, gwelsom ei bod wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ymateb i'r canfyddiadau a'r argymhellion a ddeilliodd o'n hadolygiadau yn 2020 a 2021. Mae felly mewn sefyllfa gryfach o lawer na'r hyn a ddisgrifiwyd yn yr adolygiadau hynny.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno ystod eang o welliannau llywodraethu, gweithredol, gweithlu, clinigol a digidol. Mae'n ymddangos bod llawer o'r gwelliannau hyn wedi'u hymgorffori mewn strwythurau sefydliadol arferol, prosesau llywodraethu ac ymarfer gweithredol. Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau gwneud penderfyniadau clinigol wedi gwella, a gefnogir gan brosesau uwchgyfeirio cryfach a chynnydd mewn goruchwyliaeth weithredol. Roedd trefniadau arwain hefyd wedi'u cryfhau, ynghyd â chymorth ehangach i lesiant y gweithlu a threfniadau gwell i leisio barn. Roedd gwelliannau hefyd yn amlwg yn y seilwaith hyfforddi a datblygu, llywodraethu digidol, a rheoli ansawdd data.

Un o gryfderau penodol ymateb yr Ymddiriedolaeth yw nad yw llawer o welliannau'n cael eu cyflwyno fel camau gweithredu ynysig neu fyrdymor. Ymddengys eu bod yn rhan o drefniadau sefydliadol ehangach ar gyfer llywodraethu, goruchwyliaeth weithredol a sicrwydd. Mae hyn yn awgrymu bod yr Ymddiriedolaeth wedi ymateb yn gadarnhaol ac yn adeiladol i lawer o'r pryderon a godwyd yn adolygiadau blaenorol AGIC.

Fodd bynnag, y prif gyfyngiad yn y dystiolaeth yw'r gwahaniaeth rhwng gweithredu ac effaith o hyd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi darparu tystiolaeth gryfach ar draws sawl thema, bod trefniadau, polisïau, prosesau monitro a rhaglenni gwella ar waith, na'r dystiolaeth bod y trefniadau hyn yn gwella canlyniadau'n gyson i gleifion, staff a'r system gofal brys ac argyfwng ehangach. Yn benodol, mae angen sicrwydd pellach mewn perthynas ag effeithiolrwydd a chynaliadwyedd rhaglenni trawsnewid mawr, gostyngiadau mewn niwed i gleifion sy'n gysylltiedig ag oedi wrth drosglwyddo cleifion, cyfathrebu â chleifion yn ystod achosion o oedi, dysgu sefydliadol, cymhwysedd y gweithlu yn ymarferol a gwelliannau mesuradwy o ran ansawdd y data.

Ar y cyfan, casglwn fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol a'i bod mewn sefyllfa sylweddol gryfach na'i sefyllfa ar adeg ein hadolygiadau blaenorol. Er i ni ganfod tystiolaeth bod llawer o welliannau wedi'u rhoi ar waith a'u hymgorffori, mae angen sicrwydd pellach mewn perthynas â'u heffeithiolrwydd, eu cynaliadwyedd a'u heffaith. Yn benodol, mae oedi wrth drosglwyddo cleifion yn parhau i fod yn her sylweddol i'r system ac mae'n parhau i gyfyngu ar y lefel o sicrwydd y gellir ei ddarparu ar hyn o bryd.

Meysydd ymarfer nodedig

Yn ystod yr asesiad hwn, gwnaethom nodi sawl maes ymarfer nodedig sy'n dangos cynnydd sefydliadol ystyrlon ers ein hadolygiadau blaenorol.

Uwch-ymarferwyr Parafeddygol a modelau Llywio Uwch-ymarferwyr Parafeddygol

Dangosodd tystiolaeth a gyflwynwyd gan yr Ymddiriedolaeth bod cyfraddau is o lawer o gleifion yn cael eu cludo i'r Adrannau Achosion Brys a reolir drwy lwybrau Uwch-ymarferwyr Parafeddygol a Llywio Uwch-ymarferwyr Parafeddygol o'u cymharu ag ymarfer parafeddygol safonol. Roedd hyn ymhlith y dystiolaeth gryfaf o ran canlyniadau a gyflwynwyd yn ystod yr asesiad ac mae'n dangos gwerth posibl gwneud penderfyniadau clinigol uwch a llwybrau gofal amgen.

Swyddogion Llywio Clinigol

Mae'r model Swyddogion Llywio Clinigol yn ymateb yn uniongyrchol i bryderon a nodwyd yn ystod ein hadolygiad yn 2020 ynghylch mynediad at gymorth clinigol mewn EMSCCCs. Mae'r model yn cefnogi asesiad clinigol cynharach, gwneud penderfyniadau gwell a defnydd cynyddol o lwybrau amgen.

Uned Cyflawni Gweithredol

Mae'r Uned Cyflawni Gweithredol yn darparu goruchwyliaeth weithredol wedi'i strwythuro o oedi wrth drosglwyddo cleifion, nifer yr ambiwlansys sydd ar gael, trefniadau uwchgyfeirio a phwysau ar y system ehangach. Mae'n un o elfennau arwyddocaol o fframwaith rheoli gweithredol yr Ymddiriedolaeth.

Arweinyddiaeth a goruchwyliaeth weithredol

Mae strwythur arweinyddiaeth cydlynu EMS diwygiedig yn darparu gwell arweinyddiaeth weithredol, atebolrwydd lleol a chymorth rheoli, a mynd i'r afael â phryderon a nodwyd yn ystod ein hadolygiadau blaenorol ynghylch gweledegdd ac ymgysylltiad arweinwyr.

Trefniadau llesiant y gweithlu a lleisio barn

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ehangu gwasanaethau llesiant ac wedi cryfhau ei threfniadau lleisio barn drwy gyflwyno Prif Warcheidwad llawn amser a nifer o ddulliau adrodd. Mae'r datblygiadau hyn yn dangos ymrwymiad clir gan y sefydliad tuag at lesiant staff, didwylledd a diogelwch seicolegol.

Seilwaith hyfforddi a datblygu

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei fframwaith hyfforddi a datblygu yn sylweddol drwy drefniadau sefydlu wedi'u strwythuro, rhaglenni datblygu arweinyddiaeth, gwell goruchwyliaeth llywodraethu a monitro trefniadau cydymffurfiaeth.

Trefniadau llywodraethu digidol ac ansawdd data

Mae buddsoddi mewn llywodraethu digidol ac ehangu capasiti ansawdd data pwrpasol yn rhoi sylfaen gryfach ar gyfer gweithgareddau sicrwydd a chynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.

Y camau nesaf

Mae'r argymhellion sy'n deillio o'r asesiad hwn yn canolbwyntio ar y cam gwella nesaf. Tynnir sylw at y rhain yn Atodiad A. Eu nod yw symud yr Ymddiriedolaeth y tu hwnt i

ddangos bod trefniadau wedi'u rhoi ar waith, tuag at ddangos effaith fesuradwy, gwelliant cynaliadwy a thystiolaeth gryfach o ganlyniadau.

Mae angen i'r Ymddiriedolaeth ddarparu ymateb ffurfiol i'r argymhellion a nodir yn y cynllun gwella. Dylai'r ymateb nodi'r camau gweithredu i'w cymryd, y canlyniadau a fwriadwyd, yr arweinwyr cyfrifol, amserlenni rhoi ar waith, a sut y bydd cwblhau ac effaith yn cael eu mesur a sut y dangosir tystiolaeth ohonynt.

Bydd AGIC yn ystyried ymateb yr Ymddiriedolaeth a thystiolaeth ategol fel rhan o'i gweithgareddau sicrwydd parhaus a'i hymgysylltiad â'r Ymddiriedolaeth yn y dyfodol. Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A – Argymhellion

Argymhellion:
Argymhelliad 1: Gwerthuso rhaglenni gwella mawr Dylai'r Ymddiriedolaeth werthuso rhaglenni gwella mawr yn ffurfiol, gan gynnwys Trawsnewid Model Clinigol, Swyddogion Llywio Clinigol, Gofal Integredig o Bell, modelau Uwch-ymarferwyr Parafeddygol a Llywio Uwch-ymarferwyr Parafeddygol, a mentrau llwybrau amgen.
Argymhelliad 2: Cryfhau atebolrwydd system gyfan ar gyfer oedi wrth drosglwyddo cleifion Dylai'r Ymddiriedolaeth weithio gyda byrddau iechyd, partneriaid system a chomisiynwyr i ddangos atebolrwydd a rennir ar gyfer oedi wrth drosglwyddo cleifion, llif cleifion, a rhyddhau ambiwlansys ledled Cymru.
Argymhelliad 3: Dangos llai o niwed i gleifion sy'n gysylltiedig ag oedi wrth drosglwyddo cleifion Dylai'r Ymddiriedolaeth ddarparu tystiolaeth gliriach bod gweithgareddau lliniaru yn lleihau niwed i gleifion sy'n gysylltiedig ag oedi wrth drosglwyddo cleifion ac arosiadau hir mewn ambiwlansys.
Argymhelliad 4: Sicrhau cydymffurfiaeth weithredol gyson â gweithdrefnau trosglwyddo ac uwchgyfeirio Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau'r sicrwydd bod canllawiau trosglwyddo, Gweithdrefnau Gweithredu Safonol lleol, trefniadau Rhyddhau ar unwaith, prosesau uwchgyfeirio a gweithdrefnau gweithredol cysylltiedig yn cael eu deall a'u cymhwyso'n gyson ar draws yr holl grwpiau staff a safleoedd perthnasol.
Argymhelliad 5: Gwella sicrwydd o ran cyfathrebu â chleifion yn ystod achosion o oedi Dylai'r Ymddiriedolaeth roi sicrwydd cryfach bod cleifion yn derbyn cyfathrebu amserol, clir a chyson yn ystod achosion o oedi, gan gynnwys yn ystod cyfnodau o bwysau gweithredol.
Argymhelliad 6: Cryfhau dysgu sefydliadol a dolenni adborth caeedig Dylai'r Ymddiriedolaeth ddangos sut mae dysgu o ddigwyddiadau, achosion y Ddyletswydd Gonestrwydd, pryderon lleisio barn, adborth gan staff ac adrodd 'Always On' yn arwain at gamau gweithredu, gwelliannau mesuradwy, a newid cynaliadwy.

Argymhelliad 7: Dangos cymhwysedd staff a newid ymddygiadol o hyfforddiant Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau'r dystiolaeth bod rhaglenni hyfforddi a datblygu yn arwain at gymwyseddau cyson a newid mewn ymddygiad yn ymarferol, yn enwedig mewn gofal trosglwyddo estynedig, uwchgyfeirio, adrodd ar ddigwyddiadau, a dogfennaeth risg EMSCCC.
Argymhelliad 8: Dangos gwelliant mesuradwy mewn ansawdd data Dylai'r Ymddiriedolaeth ddarparu tystiolaeth fesuradwy o welliant yn ansawdd data, gan gynnwys cyflawnrwydd, amseroldeb a chywirdeb ePCR, cydymffurfiaeth â PIN deuol, amrywiad ar lefel safle, a chamau cywiro ansawdd data.